

Mae rhai o ddisgwyliadau'r FfLIRh ar gyfer Blwyddyn 1 yn cynnwys:

Llafaredd

Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau

- Mynegi barn ar bynciau cyfarwydd.
- Siarad yn glywadwy, gan gyfleu ystyr i wrandawyr sydd y tu hwnt i'w grŵp cyfeillion.
- Gwrando ar eraill â sylw cynyddol, gan ymateb yn briodol fel arfer, *e.e. dilyn cyfarwyddiadau'n gywir*.
- Dangos eu bod yn deall yr hyn y maent wedi ei glywed drwy holi cwestiynau i ddod o hyd i ragor o wybodaeth.
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau gydag eraill a siarad am yr hyn y maent yn ei wneud.

Darllen

Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth

- Dewis deunyddiau darllen ac esbonio ystyr testun a pham maent yn ei hoffi.
- Darllen ar goedd gan roi sylw i'r atalnod llawn a'r gofynnod.
- Adnabod geiriau a lluniau ar sgrin sy'n gysylltiedig â phwnc.

Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd

- Ail-ddweud digwyddiadau o ddarn o naratif yn y drefn gywir.
- Defnyddio profiad personol er mwyn gallu deall testunau'n well.
- Mynegi barn am wybodaeth yn y testun.
- Gwneud cysylltiadau rhwng testunau a ddarllenwyd a gwybodaeth arall am y pwnc.

Ysgrifennu

Trefnu syniadau a gwybodaeth

- Defnyddio lluniau, symbolau, dilyniant o lythrennau a geiriau cyfarwydd i gyfleu ystyr.
- Dewis llythrennau, geiriau a lluniau i greu ysgrifennu ar sgrin.
- Trefnu cynnwys mewn dilyniant, *e.e. cyfarwyddiadau, ryseitiai*.

Ysgrifennu'n gywir

- Defnyddio geiriau penodol sy'n ymwneud â phwnc eu hysgrifennu.
- Creu priflythrennau a llythrennau bach sydd fel arfer yn eglur eu siâp ac yn wynebu'r ffordd gywir.

Cefnogi plant ym Blwyddyn 1

Taflen i rieni
Helpu eich plentyn gyda llythrennedd

Cefnogi eich plentyn ym Mlwyddyn 1:

Llafaredd

- ✓ Cael hwyl gyda cherddi a rhigymau gan chwarae â iaith drwy newid geiriau, e.e. Dau deigr (gi) bach yn mynd i'r jyngl (coed). Hosan (esgid) newydd ar bob pawen (troed)
- ✓ Chwarae gemau geiriau, megis y gêm hon o'r enw 'Cylch llawn': meddyliwch am air, newidiwch un llythren bob tro i wneud gair newydd, nes y byddwch chi wedi dychwelyd at y gair gwreiddiol, e.e. parc – marc – siarc - parc
- ✓ Darllen a chanu hwiangerddi neu ganeuon eraill sy'n cynnwys geiriau sy'n odli, ar y cyd gyda'ch plentyn. Byddech yn gallu eu canu, neu eu llafarganu a chlapio iddyn nhw.
- ✓ Chwarae â geiriau sy'n odli drwy geisio canfod geiriau sy'n diweddu a'r un sain e.g. *ham, jam*. Byddech hefyd yn gallu rhestru geiriau sy'n odli sydd â'r un synau e.e. ham, jam, pam ac yna cynnwys gair arall sy'n wahanol, megis 'llyfr', gan ofyn i'ch plentyn pa air yw'r un gwahanol.
- ✓ Chwarae gemau ydy/nac ydy. Mae eich plentyn yn dewis gwrthrych/person ac yn ateb ydy/nac ydy i'ch cwestiynau, nes y byddwch chi'n dyfalu'n gywir beth/pwy maen nhw'n meddwl amdano/amdani, e.e. mae'r plentyn wedi dewis afal a wedyn gallwch ofyn 'Ydy hwn yn rywbeth y byddwn i'n gallu ei fwyta?' Bydd y plentyn yn ateb 'Ydy'; 'Ydy o'n tyfu?' Ateb 'Ydy' ac ati.
- ✓ Chwarae gemau llythrennau megis *Rydw i'n gweld gyda fy llygad bach i...*
- ✓ Ar ôl i'ch plentyn wyllo rhaglen deledu, byddech chi'n gallu siarad am y rhaglen. Gallech ofyn cwestiynau megis: "Oeddet ti'n hoffi'r rhaglen yna?" "Beth oeddet ti'n ei hoffi?" neu "Beth nad oeddet ti'n

ei hoffi?" Efallai y byddwch chi am ddarparu crynodeb i'ch plentyn, o'r hyn ddigwyddodd yn y rhaglen.

- ✓ Gallwch hybu'r defnydd a wna eich plentyn o eiriau drwy fynd ar 'daith eiriau' gyda'ch plentyn, dan do neu yn yr awyr agored, gan enwi pob eitem y dewch chi ar eu traws, e.e. bwrdd, ci, car modur, glaswellt, ac ati.
- ✓ Rhannwch lyfr newydd gyda'ch plentyn, gan gymryd 'taith luniau' drwy'r llyfr, yn edrych ar y lluniau ac yn siarad amdany'n nhw.

Darllen

- ✓ Wrth edrych ar lyfrau gyda'ch plentyn, gallwch ddechrau gofyn cwestiynau am y llyfrau, e.e. cwestiynau am y clawr, yr awdur, cynnwys y stori.
- ✓ Darllenwch hoff stori eich plentyn iddo ef//iddi hi mewn man cyfforddus a thawel. Gofynnwch i'ch plentyn ragfynegi beth fydd yn digwydd nesaf yn y stori.
- ✓ Gyrrwch nodiadau byr i'ch plentyn (drwy eu rhoi nhw yn eu poced neu yn eu pecyn bwyd, er enghraifft). Pan fydd eich plentyn yn dangos y nodiadau i chi, gallwch eu darllen yn uchel gyda mynegiant. Bydd rhai plant yn gallu darllen y nodiadau eu hunain.
- ✓ Addysgwch eich plentyn i ddefnyddio cyfrifiadur, a'i ddefnyddio i ganfod gwybodaeth y mae eich plentyn ei angen neu eisiau ei ganfod. Gallwch helpu eich plentyn i ddewis pwnc sydd o ddiddordeb iddo ef/hi, e.e. chwaraeon, anifeiliaid neu bobl mewn gwledydd eraill. Wedyn, gallwch ddefnyddio peiriant chwilio, e.e. google i helpu eich plentyn ganfod gwybodaeth addas i blant ar y pwnc a ddewiswyd.
- ✓ Bydd hyd yn oed blant ifanc iawn yn adnabod arwyddion a symbolau am eu hoff leoedd, e.e. siopau teganau a thai bwyta,

Wrth i chi deithio yn y car, ar fws neu ar drên, pwyntiwch at arwyddion mawr nad ydyn nhw mor gyfarwydd i'ch plentyn. Byddech yn gallu enwi'r lluniau a darllen y geiriau sydd ar yr arwyddion, ac yna siarad am y geiriau a'u sillafu ar y cyd.

Ysgrifennu

- ✓ Pan fyddwch yn mynd i siopa. Gofynnwch i'ch plentyn eich helpu i ysgrifennu rhestr siopa cyn gadael y tŷ. Gallai eich plentyn ysgrifennu llythrennau neu eiriau syml.
- ✓ Gyda'ch plentyn, edrychwch am bethau yn eich tŷ sy'n dechrau â llythyren gyntaf enw'ch plentyn: "Mae C am Ceri – Beth arall sy'n dechrau gyda C? Cadair, car, cap..." Wedyn, gellid ysgrifennu'r geiriau hyn.
- ✓ Ar ôl i chi fod allan yn siopa neu ar daith gyda'ch plentyn, gofynnwch iddo ef/iddi hi dynnu llun cyfres o luniau i ddangos beth ddigwyddodd. Bydden nhw'n gallu ysgrifennu geiriau syml megis penawdau i bob llun.
- ✓ Chwaraewch â llythrennau magnetig neu lythrennau mawr wedi eu torri allan o gylchgrawn. Dangoswch i'ch plentyn sut y gellir ychwanegu llythrennau neu gymryd llythrennau i ffwrdd i wneud geiriau newydd.
- ✓ Edrychwch ar wahanol fathau o ysgrifennu gyda'ch plentyn, e.e. yr ysgrifan ar gardiau penblwydd, rhestrau siopa, ryseitiau ac ati.
- ✓ Chwaraewch gêm gyda'ch plentyn, lle rydych yn enwi pethau sydd y tu mewn i'r tŷ, e.e. bwrdd, llyfr, cwpan. Wedyn, byddech chi'n gallu ysgrifennu labeli ar gyfer y gwahanol bethau, gyda'ch plentyn, a'u hannog i gopïo ac ysgrifennu llythrennau a geiriau.

